**Cofnodion Bwrdd TrC**

**17 Ebrill 2025**

09:00 – 16:00

Lleoliad – Llys Cadwyn a Teams

---

**Yn Bresennol:** Scott Waddington (Cadeirydd), Alun Bowen, Heather Clash, a James Price, Louise Cheeseman, Vernon Everitt, Rhian Langham a Vinay Parmar.

**Hefyd yn bresennol:** Ian Lucas (Cyfarwyddwr Anweithredol Cysylltiol), Sam Hadley (TrC), Peter McDonald (Llywodraeth Cymru) a Stephen Morgan.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

**1a. Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

Ni nodwyd unrhyw ymddiheuriadau.

**1b. Hysbysiad ynghylch Cworwm**

Gan fod cworwm yn bresennol, croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a datgan bod y cyfarfod yn agored.

**1c. Datgan Buddiant**

Dim.

**1d. Cofnodion a Chamau Gweithredu o'r Cyfarfod Blaenorol**

Cymeradwyodd y Bwrdd gofnodion 20 Mawrth 2025

**1e. Sylw i ddiogelwch**

Trafododd y Bwrdd ddigwyddiad diweddar ger Willingham, lle'r oedd dau fws ac injan dân yn rhan o ddamwain traffig ar y ffordd a arweiniodd at gludo tri pherson i'r ysbyty, un gydag anafiadau difrifol. Cytunodd y Bwrdd fod hyn yn ein hatgoffa fod digwyddiadau'n gallu digwydd mewn unrhyw sefyllfa ac mae'n ddyletswydd ar TrC i fod yn wyliadwrus ac i liniaru risg lle bo hynny'n bosibl.

**1f. Sylw i Gwsmeriaid**

Trafododd y Bwrdd allgau digidol ac anhawster cychwynnol aelod o deulu wrth gysylltu â'i ddarparwr teledu, ar ôl derbyn negeseuon e-bost yn bygwth adennill dyledion. Ar ôl ffonio'r adran gwasanaethau cwsmeriaid, cafodd ei gyfeirio i ddechrau drwy system awtomatig, a oedd yn mynd yn fwy ac yn fwy rhwystredig. Fodd bynnag, ar ôl cael ei gysylltu ag asiant, daeth y broses yn galonogol a gwelwyd enghraifft o ofal cwsmer rhagorol. Nododd y Bwrdd, er bod systemau awtomatig yn gallu bod yn ddefnyddiol, mae cael rhywun sy'n deall yn rhan bwysig o'r dasg o ddarparu profiad personol, a dylai egwyddorion dylunio sicrhau eu bod yn rhoi pwyslais ar bobl.

**2. Perfformiad Diogelwch**

Ymunodd Seamus Scallon â'r cyfarfod.

Cafodd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf am ymweliad diweddar â TfL i ddeall y risgiau sy'n gysylltiedig â defnyddio bysiau hydrogen a'u mabwysiadu.

Trafododd y Bwrdd y cynllun Diogelwch hefyd, gan nodi bod cynlluniau wedi cael eu datblygu gyda pherchnogion a'u timau sydd i fod i gymryd cyfrifoldeb am gamau gweithredu. Nododd y Bwrdd fod damweiniau nad ydynt yn ymwneud â'r gweithlu wedi gwella ers y cyfnod diwethaf, a bod ymosodiadau nad ydynt yn ymwneud â'r gweithlu wedi gostwng 30% ers y cyfnod diwethaf. Gofynnodd y Bwrdd am gymhariaeth o un flwyddyn i'r llall, gan wneud cais i'r ystadegau gael eu normaleiddio i ystyried digwyddiadau afreolaidd er mwyn canfod a oes unrhyw dueddiadau sy'n gyrru digwyddiadau y tu hwnt i ddiwrnodau digwyddiadau **[Gweithredu – Seamus Scallon]**. Hysbyswyd y Bwrdd, er bod nifer y damweiniau sy'n ymwneud â'r gweithlu wedi gostwng, mae angen gwneud gwelliannau o hyd er mwyn lleihau achosion o ymosod, gan nodi bod y rhan fwyaf o ymosodiadau yr adroddir amdanynt yn ymwneud ag ymddygiad geiriol a gwrthgymdeithasol.

Hysbyswyd y Bwrdd fod cynlluniau diogelwch teithio wedi cael eu cyflwyno ar Linellau Craidd y Cymoedd, gan ganolbwyntio'n benodol ar benwythnosau, a staff diogelwch ychwanegol yn cael eu darparu. Trafododd y Bwrdd ymgysylltu ag uwch reolwyr, gan gynnwys teithiau diogelwch a chynlluniau i fynd allan i'r rhwydwaith ac ymgysylltu â chydweithwyr er mwyn cael cyfle i ddeall pryderon diogelwch yn well. Holodd y Bwrdd a oedd data ar gael i ddangos argraffiadau cydweithwyr ynghylch diogelwch a sut maen nhw'n teimlo, gan nodi y byddai'n fuddiol gallu deall sut mae cydweithwyr a chwsmeriaid yn gweld diogelwch o'i gymharu ag adroddiadau traddodiadol, a gofynnodd a fyddai'n bosibl i'r data gael ei gynnwys yn y diweddariad diogelwch a gyflwynir i'r Bwrdd **[Gweithredu – Seamus Scallon]**. Trafododd y Bwrdd duedd cydweithwyr i roi gwybod am ddigwyddiadau a diffiniadau o ddamwain neu ymosodiad, gan nodi y gall adroddiadau amrywio, ac y gall y cyfryngau a ffactorau allanol eraill gael dylanwad.

Trafododd y Bwrdd chwythu'r chwiban a data allweddol a nodwyd ar iechyd a diogelwch, gan holi a yw chwythu'r chwiban yn rhoi ffocws ar ddiogelwch, gyda golwg ar ystod eang o bwyntiau data a allai adeiladu naratif ehangach y tu hwnt i chwythu'r chwiban yn unig. Hysbyswyd y Bwrdd fod data diogelwch yn cael ei wahanu oddi wrth adroddiadau chwythu'r chwiban, ond cytunwyd nad yw'n cyfrannu at bwyntiau data ehangach ar hyn o bryd. Ystyriodd y Bwrdd adolygu data chwythu'r chwiban i nodi themâu diwylliannol a allai roi cipolwg gwerthfawr ar ddiogelwch, gan nodi bod angen gwaith ar gyfathrebiadau sy'n ymwneud â chwythu'r chwiban i roi sicrwydd i gydweithwyr nad oes unrhyw gosb am wneud hynny [**Gweithredu – Seamus Scallon**].

Derbyniodd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf am Pullman Rail a chafodd wybod, er nad oes unrhyw beth wedi cael ei ddweud yn adroddiad y Bwrdd, y bu heriau wrth sefydlu trefn ddiogelwch well a bod secondiad o TrC wedi cael ei roi ar waith i sicrhau arferion diogelwch gwell.

[redacted]

*Gadawodd Seamus Scallon y cyfarfod.*

**3. Cofrestr risg**

*Ymunodd Josh Hopkins â'r cyfarfod.*

Trafododd a nododd y Bwrdd yr adroddiad risg strategol ar gyfer mis Ebrill, a dywedwyd wrtho y bydd datganiad ar barodrwydd i dderbyn risg yn cael ei gyflwyno i'w drafod ym mis Mehefin.

*Gadawodd Josh Hopkins y cyfarfod.*

**4. Adroddiad a diweddariad y Prif Swyddog Gweithredol**

Cafodd y Bwrdd drosolwg o Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol:

- Nododd y bwrdd yr her ddiwylliannol o symud i Rwydwaith T, gan gofio bod aelodau'r tîm â phrofiad uniongyrchol o un dull gweithredu yn hanesyddol. Serch hynny, mae gwaith datblygu'n parhau.
- Heriau i gynyddu gwasanaethau yng Ngogledd Cymru oherwydd cyfyngiadau croesfannau rheilffordd ac ymgysylltu â Network Rail i ddatrys cyfyngiadau.
- [redacted]
- [redacted]
- [redacted]
- Gofynnodd y Bwrdd am ddatblygu asesiad o'r effaith ar gwsmeriaid ar gyfer diwygio'r rheilffyrdd (cyn ac ar ôl hynny) **[Gweithredu – James Price]** a bod y 'pecyn cyflwyno' ar gyfer yr hyn y mae TrC ei eisiau allan o GBR yn cael ei ddosbarthu i aelodau'r Bwrdd **[Gweithredu – James Price]**.
- Cynigion Rhwydwaith Gogledd Cymru a datblygu darlun clir o beth mae un amserlen, un tocyn yn ei olygu i gwsmeriaid i ddangos manteision Rhwydwaith T.
- [redacted]

- [redacted]
- Trafododd y Bwrdd benderfyniadau rheng flaen a sut mae annog grymuso ar yr un pryd â chynnal rheolaethau diogelwch cryf, gan nodi y bydd hyn yn dod yn ôl i Fwrdd TrC i'w drafod ymhellach.
- Nododd y Bwrdd drafodaeth flaenorol ar weithio gydag asiantaeth ddiwylliant a gofynnodd am ddiweddariad. Hysbyswyd y Bwrdd fod yr ymgynghoriaeth a gyflogwyd yn flaenorol wedi cwblhau ei gwaith erbyn hyn, a bod gwaith bellach yn parhau'n fewnol.
- [redacted]
- Yn ddiweddar, aeth JP i'r Pwyllgor Pobl a thynnu sylw at y set ddata a gyflwynwyd yn y pecyn, gan ddweud y bydd data'n esblygu ac yn dod yn fwy defnyddiol wrth iddo ddatblygu.
- [redacted]
- Hysbyswyd y Bwrdd fod perfformiad rheilffyrdd yn dal yn dda, yn enwedig ar Linellau Craidd y Cymoedd, diolch i amserlenni datblygedig a diwylliant perfformiad sy'n golygu bod modd canolbwyntio ar rannau llai gweladwy o'r rhwydwaith a allai fod yn niweidiol i incwm a brand.
- Mae rhwystr ar lein Rhymni am chwe wythnos tra bo gwaith trydaneiddio'n cael ei wneud. Nodwyd nad oes unrhyw gwynion wedi dod i law gan y Prif Swyddog Gweithredol mewn perthynas â hyn.
- [redacted]
- [redacted]
- [redacted]
- Diweddarwyd y Bwrdd am flaenoriaethau strategol y Bwrdd.

**5. Cyllid**

Hysbyswyd y Bwrdd fod archwilwyr allanol wrthi'n asesu prisiadau Llinellau Craidd y Cymoedd. Bydd datganiadau ariannol yn cael eu cwblhau erbyn diwedd mis Mehefin i'w cynnwys yn natganiadau ariannol 2024/25. [redacted] Yn dilyn trafodaeth ynghylch CDEL gyda Llywodraeth Cymru, cytunwyd i reoli symudiadau diwedd y flwyddyn terfynol rhwng llinellau gwariant yn y gyllideb a'u defnyddio i leihau yn erbyn rheilffyrdd er mwyn helpu i reoli risg a bylchau cyllido yn y dyfodol. [redacted]

[redacted]

**5.2 Llythyrau Cysur**

Cymeradwyodd y Bwrdd lythyrau cysur Gwasanaethau Arloesi TrC Cyf a Pullman Rail Ltd.

**6. Diweddariad ar Is-gwmnïau**

**6.1 Bwrdd Rheilffyrdd TrC.** Rhoddwyd gwybodaeth i'r Bwrdd am drafodaethau ynghylch CAF, rhagolygon a thargedau perfformiad y cytunwyd arnynt ar gyfer y 12 mis nesaf, a thrafodaethau masnachol a marchnata.

**6.2 Ffeibr TrC.** [redacted]

**7. Diweddariad ar Is-bwyllgorau**

**7.1 Iechyd, Diogelwch a Chynaliadwyedd.** Hysbyswyd y Bwrdd fod trafodaethau wedi cael eu cynnal ynghylch trenau'n dod oddi ar y cledrau ar gyflymder araf yn Nhreganna a bod RSSB wedi cael sicrwydd bod ffactorau cyfrannol wedi cael eu hasesu, gyda chyfres o gamau gweithredu wedi cael eu sefydlu i liniaru achosion yn y dyfodol. Hysbyswyd y Bwrdd fod telemateg bysiau yn rheoli achosion o dorri terfynau cyflymder uchel. Trafododd y Pwyllgor hefyd y defnydd o gamerâu corff a hyrwyddo manteision gwisgo'r offer ymhlith staff rheng flaen. Nododd y Bwrdd chwarter diogelwch cadarnhaol ar gyfer Pullman Rail.

**7.2 Prosiectau Mawr.** Hysbyswyd y Bwrdd fod bysiau, hydrogen, Caerdydd Canolog a Cledrau Croesi wedi cael eu trafod.

**7.3 Pwyllgor Pobl.** Adolygwyd gofynion data a dadansoddi. Hysbyswyd y Bwrdd fod y pwyllgor yn symud tuag at ddealltwriaeth a chamau gweithredu, gan nodi bod angen sefydlu canlyniadau. Adolygodd y Pwyllgor bolisi'r menopos, cynllunio cydraddoldeb strategol, y bwlch cyflog rhwng y rhywiau a sut mae'n cael ei adrodd, gan nodi bod angen adrodd yn ôl erbyn 5 Ebrill.

**7.4 Masnachol a Phrofiad y Cwsmer.** Derbyniodd y Bwrdd ddiweddariad a thrafododd ail-lunio'r is-bwyllgor Masnachol a Phrofiad y Cwsmer. Hysbyswyd y Bwrdd fod sgyrsiau'n esblygu i ddull gweithredu mwy strategol. Roedd y cyfarfod diweddar yn canolbwyntio ar argraffiadau o ran brand, gwerthiant, partneriaethau masnachol a chyflawni. Bydd agendâu'r dyfodol yn canolbwyntio ar berfformiad a dangosyddion perfformiad allweddol.

**7.5 Diweddariad y Bwrdd Llywio.** Hysbyswyd y Bwrdd fod trafodaeth wedi'i chynnal ynghylch GBR a nodwyd y Bwrdd Diwygio Bysiau newydd a fydd yn adrodd yn ôl i'r Bwrdd Llywio. Rhoddwyd diweddariadau ar ddiwedd y flwyddyn, llythyrau cyllido a chynnydd mewn Yswiriant Gwladol.

**8. Sesiwn Diweddaru Gweithredol**

**8.1 Diweddariad ar CVL**

*Ymunodd Dan Tipper â'r cyfarfod.*

Derbyniodd y Bwrdd ddiweddariad a thrafodwyd y canlynol:

- Mae'r rhaglen drydaneiddio a fydd yn nodi rhediadau cyntaf yr unedau Dosbarth 756 wedi cwblhau chwech allan o wyth noson o brofion, gydag elfennau EMT a darllen goleuadau yn perfformio yn ôl y disgwyl.
- Mae mater ceblau trydanol newydd o dan bontydd yn tripio wedi cael ei ddatrys, gan nodi bod hyn wedi achosi tua wyth achos o dripio.
- Mae'r uned Dosbarth 398 gyntaf wedi bod yn cael ei phrofi ar rwydwaith TAM yn ystod y dydd. Cynhaliwyd profion hefyd drwy sawl noson, a nodwyd rhai mân broblemau cychwynnol. Mae cyfanswm o 5,000 o filltiroedd o brofion wedi cael eu cwblhau.
- Gosodwyd 120 o sylfeini llinellau uwchben ar linell Rhymni, o flaen amserlenni'r rhaglen.
- Cwblhau'r gwaith o drydaneiddio Caerffili erbyn mis Awst 2025.
- Aros o fewn y gyllideb ar gyfer 2025/26.
- Cerbydau newydd yn cyflawni 92.3% ar amser, gan ragori ar y cerbydau presennol.

Llongyfarchodd y Bwrdd Dan Tipper a'r tîm ar y llwyddiannau a'r hyn a gyflawnwyd hyd yma.

*Gadawodd Dan Tipper y cyfarfod.*

**8.2 Rhaglen Bysiau Hydrogen**

*Ymunodd Lee Robinson â'r cyfarfod.*

[redacted]

[redacted]

[redacted]

**9. Unrhyw Fater Arall**

Nododd y Bwrdd werthiant tocynnau ar gyfer uwchgynhadledd trafnidiaeth mis Mai, a thrafodwyd ymgysylltu a hyrwyddo'r digwyddiad. Gofynnwyd i aelodau'r Bwrdd hyrwyddo'r Uwchgynhadledd drafnidiaeth drwy eu cyfrifon LinkedIn. Cytunodd y Bwrdd i annog cynulleidfa amrywiol i fod yn bresennol.

**10. Papur i'w nodi**

**10.1** Nododd y Bwrdd y Papur Amcanion Llesiant

**11. Sesiwn Gyfrinachol**

Cafodd y Bwrdd sesiwn gyfrinachol [redacted]

- [redacted]
- [redacted]

Gan nad oedd unrhyw fater arall, diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniadau a datgan bod y cyfarfod wedi dod i ben.